

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig eraill adeg marwolaeth plant dan 18 oed

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ar 23 Tachwedd 2017, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ar ran prif gynghorau) ac Un Llais Cymru (ar ran cynghorau cymuned a thref) i roi terfyn ar ffioedd claddu ac amlosgi lleol i blant yng Nghymru.

Roedd y Memorandwm Cyd-dealltwriaeth yn amlinellu ymrwymiad a rennir i hepgor ffioedd cyffredinol sy'n cael eu codi gan awdurdodau claddu parthed:

- *Amlosgi* person dan 18 oed (gan gynnwys babanod marwanedig a gweddillion ffetysau);
- *Claddu* person dan 18 oed (gan gynnwys babanod marwanedig a gweddillion ffetysau);
- *Hawliau claddu unigryw*, lle bo'r gofyn;
- Unrhyw ffioedd eraill yn ymwneud yn uniongyrchol â chladdu neu amlosgi person, neu weddillion person wedi'i amlosgi, lle bo'r person hwnnw dan 18 oed (er enghraifft, y ffioedd sy'n cael eu codi am ganiatâd i godi cofeb).

Caiff y ffioedd eu hepgor gan lywodraeth leol ac wrth gydnabod y goblygiadau o beidio â chodi tâl, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol i lywodraeth leol drwy grant blynyddol. Mae'r arian hwn ar gael i ALLau ar yr amod nad ydynt yn codi'r ffioedd perthnasol eu hunain a'u bod yn rhoi trefniadau ar waith i ddosbarthu swm priodol o'r cyllid i ddarparwyr eraill sydd hefyd yn gweithredu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Ymrwymodd Gweinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau presennol cyn diwedd 2019-20 i ystyried sut mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi gweithio'n ymarferol a ph'un a ddylid ymestyn cwrdd yr hyn sydd wedi'i gynnwys, er enghraifft cynnwys cost arch neu gyfraniad tuag at y gost honno a chostau ehangach angladd.

Ar ôl ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, cytunodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod gwerth mewn cadw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol a'r cyllid cysylltiedig mewn perthynas â ffioedd claddu ac amlosgi plant.

Rhoddodd y Gweinidog gyfarwyddyd hefyd i swyddogion fynd ar drywydd darparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig eraill i blant dan 18 oed drwy fodel a ddarperir yn lleol mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac eraill. Mae'r asesiad hwn yn ystyried effeithiau gwneud hynny.

Tymor hir

Mae rhoi terfyn ar ffioedd am gladdu ac amlosgi plant wedi gwneud rhywfaint i leihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd sydd wedi bod drwy'r profiad o golli plentyn ac sy'n galaru.

Fodd bynnag, i lawer o deuluoedd, mae'r straen a'r gofid a ddaw law yn llaw â thalu am gostau eraill sy'n gysylltiedig ag angladd yn fater y mae'n dal rhaid iddynt ei wynebu. Bydd darparu cyllid ar gyfer costau ychwanegol fel arch, cerbydau angladd, blodau a chofebion yn helpu i leihau ymhellach y baich ariannol i deuluoedd ar adeg mor ofidus.

Bydd ehangu cwrdd y cymorth mewn perthynas â chladdiedigaethau ac amlosgiadau plant yn sicrhau ffordd deg a chyson o weithio ledled Cymru, a bydd hefyd yn darparu mwy o gysondeb ledled Cymru a Lloegr¹ i sicrhau bod pob teulu'n cael eu cefnogi'n gyfartal, ac nad oes unrhyw deulu dan anfantais oherwydd ble maent yn byw.

Atal

Nod y polisi yw:

- Lleihau rhywfaint o'r baich ariannol y mae teuluoedd yn ei wynebu, gan gydnabod y gallai caledi ariannol ychwanegol gael effaith ar y teulu yn y tymor hwy;
- Cefnogi iechyd a lles y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol a'r teulu ehangach yn well drwy leihau straen a biwrocratiaeth ddiangen pan fyddant ar eu mwyaf bregus.

Integreiddio

Dylid ystyried y polisi yn rhan annatod o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a theuluoedd, ochr yn ochr â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i wella canlyniadau iechyd a chydaddoldeb i blant a theuluoedd, er enghraifft:

- Hepgor ffioedd claddu ac amlosgi plant
- Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru
- Rhaglen Plant Iach Cymru
- Dechrau'n Deg
- Y fenter bwndeli babi
- Y 1000 Diwrnod Cyntaf
- Agenda Drawsbotffolio'r Blynnyddoedd Cynnar
- Magu plant - Rhowch amser iddo
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Cychwyn Iach
- Cynllun Gwên

¹ Mae Cronfa Angladdau Plant Lloegr (CFF) yn darparu cyllid tuag at gostau penodol sy'n gysylltiedig ag angladdau -

<https://www.gov.uk/government/publications/childrens-funeral-fund-for-england>

- Gwaith Gwybodaeth i Rieni sy'n cael ei gynhyrchu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cydweithredu

Mae cydweithredu'n hanfodol i'r ffordd o weithio yng Nghymru. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyd-gynllunio'r gwaith o ddatblygu a darparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig fel bod modd cefnogi teuluoedd sydd mewn profedigaeth yn y ffordd fwyaf tosturiol ac ymarferol.

Sefydlwyd gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau perthnasol mewn awdurdodau lleol.

Chwarae rhan

Ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer ffioedd claddu ac amlosgi plant (y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chyllid cysylltiedig) a llywiodd hyn y penderfyniad i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig. Yn ogystal, gwnaethom ymgysylltu'n rhagweithiol â'r rhanddeiliaid hyn i lywio datblygiad (dull a chwmpas) y gweithgor o'r cymorth ychwanegol:

- Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a darparwyr claddu eraill
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gweithgor Cymorth Profedigaeth Llywodraeth Cymru²
- Gweinyddiaethau datganoledig eraill
- Grŵp Cynghori'r sector angladdau ar Reoli Marwolaethau (DMAG)
- Swyddogion Llywodraeth Cymru

Effaith

O ran effaith y bwriad i ehangu cwmpas presennol y cymorth i deuluoedd plant sydd mewn profedigaeth, ystyriwyd y dadleuon o blaid ac yn erbyn, fel a ganlyn:

O blaid:

- Er na fu unrhyw gysylltiad uniongyrchol â theuluoedd mewn profedigaeth, yn gyffredinol mae grwpiau rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda nhw o'r farn y bydd darparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd mewn profedigaeth;
- Bydd darparu cyllid i dalu costau ychwanegol yn helpu i leihau ymhellach y baich ariannol ar deuluoedd – nid yw rhieni byth yn disgwyl colli plentyn ac felly maent yn annhebygol o fod wedi cynllunio ar ei gyfer;
- Bydd darparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladdau a chostau cysylltiedig yn sicrhau cysondeb yn y cymorth sydd ar gael ledled

² Mae'r aelodau'n cynnwys arweinwyr polisi mewnol, cynrychiolaeth gan sefydliadau elusennol sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd sydd wedi dioddef colli plentyn, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr byrddau iechyd ac aelodau o'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes a chlinigwyr

Cymru a Lloegr ac yn sicrhau nad oes unrhyw deulu dan anfantais oherwydd ble maent yn byw.

Gweithgor Cymorth Profedigaeth Llywodraeth Cymru – “Colli plentyn yw'r peth gwaethaf all fyth ddigwydd i riant. Mae gorfod wynebu'r baich ariannol o roi angladd arbennig iddynt yn ychwanegu poen a phryder diangen ar yr adeg dorcalonnus hon.”

Dyfyniad gan riant mewn ymateb i roi diwedd ffioedd claddu ac amlosgi plant – “Pan fu farw fy merch Daisy, roedd angen i mi ganolbwyntio ar alaru a chefnogi brodyr a chwiorydd Daisy ond roeddwn yn poeni am y baich ariannol o dalu am ei hangladd. Ni ddylai unrhyw riant orfod poeni am arian tra'n galaru am blentyn.”

Yn erbyn:

- Cafwyd ymateb cychwynnol cymysg gan awdurdodau lleol ar werth ehangu cwmplas – gan fod trefnwyr angladdau yn aml yn hepgor rhai costau neu'n eu lleihau'n sylweddol yn achos marwolaethau plant. Fodd bynnag, nid yw'n glir gyda pha gostau y gwneir hyn; faint o gysondeb a geir o safbwynt cymhwyso'r dull hwn; a pha ystod oedran y mae'n berthnasol iddi;
- Roedd gan rai awdurdodau lleol bryderon y byddai model cyflawni a arweinir gan awdurdodau lleol yn arwain at lawer mwy o faich gweinyddol iddynt.

Fel y nodwyd uchod, ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid drwy gydol yr adolygiad o'r trefniadau presennol a datblygwyd cymorth ariannol ychwanegol i deuluoedd mewn profedigaeth sydd wedi colli plentyn.

Costau ac Arbedion

Cyfartaledd nifer y marwolaethau ymhlith plant yng Nghymru (dros gyfnod o dair blynedd) yw 367, a defnyddiwyd hwn i fodelu'r gost o ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn i deuluoedd³. Fodd bynnag, bydd y dyraniad terfynol ar gyfer awdurdodau lleol yn seiliedig ar nifer cyfartalog y marwolaethau a gofrestrwyd (dros gyfnod o ddwy flynedd)⁴. Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y lefel gywir o gyllid i'w dosbarthu i deuluoedd yn seiliedig ar ble mae'r farwolaeth wedi'i chofrestru yn hytrach na lle digwyddodd y farwolaeth.

Yn ogystal, bydd rhai costau mewn perthynas â pharhau i weinyddu a darparu'r cymorth – ond bydd y rhain yn fach oherwydd bod y dull darparu yn wedi'i gynnwys mewn system sydd eisoes wedi'i sefydlu, o fewn rôl bresennol y Cofrestrydd.

Amcangyfrifir y bydd y cymorth ychwanegol yn costio tua £200,000 a bydd yn cael ei ariannu gan y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai a Llywodraeth Leol.

Mecanwaith

Nid yw'n ofynnol cael deddfwriaeth i gyflawni'r cynnig hwn.

³ Yn seiliedig ar ffigurau 2016-2018 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (blynyddoedd calendr) lle digwyddodd y farwolaeth.

⁴ Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Gofrestryddion o nifer cyfartalog y marwolaethau a gofrestrwyd dros gyfnod o ddwy flynedd (Blynyddoedd Ariannol 2018-19 a 2019-20) o fewn yr awdurdod lleol

Mae Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maen nhw'n ei ystyried yn briodol i hyrwyddo neu wella lles economaidd neu gymdeithasol Cymru, ymhlith pethau eraill. Bydd rhoi cymorth ariannol i deuluoedd mewn profedigaeth tuag at gostau angladd, yn hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol.

Mae Adran (2) yn darparu y gellir arfer y pŵer hwn er lles neu mewn perthynas â Chymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru, neu bawb neu unrhyw bobl sy'n preswyllo neu'n bresennol yng Nghymru.

Cynigir taliad wrth gofrestru'r farwolaeth (pennir cymhwysra ar gyfer y taliad adeg cofrestru). Mae'r dull wedi'i gynnwys fel rhan o system sefydledig, o fewn rôl bresennol y Cofrestrydd, a fydd yn gweithredu yn hyn o beth yn rhinwedd ei swydd fel un o gyflogion Awdurdod Lleol ac nid Cofrestrydd statudol.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae cydweithredu'n hanfodol i'r ffordd o weithio yng Nghymru. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ddatblygu dull o weithredu fel bod modd cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth yn y ffordd fwyaf tosturiol ac ymarferol.

Ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer hepgor ffioedd claddu ac amlosgi plant (y Memorandwm Cydddealltwriaeth a chyllid cysylltiedig) a llywiodd hyn y penderfyniad i hefyd ddarparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gost angladd a chostau cysylltiedig hefyd. Yn ogystal, gwnaethom ymgysylltu'n weithredol â'r rhanddeiliaid hyn i lywio dull a chwmpas y cymorth ychwanegol:

- Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a darparwyr claddu eraill
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gweithgor Cymorth Profedigaeth Llywodraeth Cymru⁵
- Gweinyddiaethau datganoledig eraill
- Grŵp Cynghori'r sector angladdau ar Reoli Marwolaethau (DMAG)
- Swyddogion Llywodraeth Cymru

Yn ogystal, sefydlwyd gweithgor i gyd-gynllunio'r gwaith o ddatblygu a darparu cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig. Roedd

⁵ Mae'r aelodau'n cynnwys arweinwyr polisi mewnol, cynrychiolaeth gan sefydliadau elusennol sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd sydd wedi colli babanod, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, cynrychiolwyr byrddau iechyd ac aelodau o'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes a chlinigwyr.

arweinwyr gwasanaeth profedigaeth awdurdodau lleol, Cofrestryddion a CLILC yn cynrychioli'r grŵp.

Er nad ymgynghorwyd yn uniongyrchol â phlant, rhieni, gwarcheidwaid a theuluoedd, ymgynghorwyd â Gweithgor Cymorth Profedigaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau elusennol sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd sydd wedi colli plentyn, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr byrddau iechyd, aelodau o'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes a chlinigwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd i'w cefnogi pan fyddant wedi colli plentyn. Am y rheswm hwn, gofynnwyd i'r aelodau am eu barn ar beth arall y gellir ei wneud yng Nghymru i gefnogi teuluoedd sy'n galaru ar adeg mor anodd.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae ehangu'r cymorth i ddarparu cyfraniad tuag at gostau angladdau hefyd wedi'i gynllunio'n genedlaethol, drwy'r gweithgor, i sicrhau darpariaeth gyson ac i sicrhau bod pob teulu'n cael ei drin yn gyfartal. Bydd yn rhan o becyn cymorth yn cynnwys hepgor ffioedd claddu ac amlosgi a darparu gwasanaethau cymorth profedigaeth, a dylid ei ystyried yn rhan ganolog o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a theuluoedd, ochr yn ochr â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i wella canlyniadau iechyd ac anghydraddoldeb i blant a theuluoedd.

Mae'r asesiad o'r effaith ar Hawliau Plant wedi dod i'r casgliad y bydd darparu cymorth ariannol ychwanegol i deuluoedd mewn profedigaeth ar ôl colli plentyn yn cael nifer o effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol ar blant; ac effeithiau uniongyrchol, gan gynnwys pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad hefyd yn berson ifanc, neu lle ceir brodyr a chwiorydd eraill. Bydd y polisi'n darparu cymorth ariannol mewn amgylchiadau a allai fel arall fod wedi achosi caledi ariannol i rieni, gan gynnwys y rhai sy'n iau ac nid mewn sefyllfa ariannol gref o bosibl. Bydd hyn yn helpu i gefnogi teuluoedd i barhau i fod yn rhieni cyhyd ag y bo modd wrth iddynt ddarparu angladd addas i'w plentyn fel un o'r pethau olaf y gallant ei wneud dros y plentyn hwnnw. Bydd hefyd yn helpu i leihau rhywfaint o'r baich ariannol ar deuluoedd o bob oed, gan gynnwys y teuluoedd mwyaf agored i niwed lle gallai caledi ariannol ychwanegol gael effaith tymor hwy ar y teulu ehangach, gan gynnwys unrhyw blant eraill sydd ar ôl. Nid ydym yn credu y bydd y polisi'n effeithio'n negyddol ar hawliau plant.

Bydd y polisi'n berthnasol i bob teulu mewn profedigaeth sydd wedi colli plentyn o dan 18 oed yng Nghymru heb wahaniaethu. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai diben y polisi hwn yn benodol yw helpu teuluoedd i dalu am angladd neu gostau cysylltiedig eraill plentyn dan 18 oed – felly, ni chynigir yr un cymorth i deuluoedd pobl ifanc sydd wedi marw neu oedolion dros 18 oed a allai fod hefyd yn profi anawsterau ariannol yn yr un sefyllfa.

Edrychwyd ar yr effaith ar y Gymraeg drwy Asesiad Effaith o'r Gymraeg. Ni ddisgwylir y bydd y polisi hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg.

Ar ôl ystyried effaith y polisi hwn ar fioamrywiaeth, daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

Mae asesiad sgrinio o'r effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gynnal a phenderfynwyd nad yw'r cynnig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a bennir gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o'r GDPR.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd:

Mae'r polisi'n cefnogi nodau ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru drwy:

- **Cymru Ffyniannus a Cymru Fwy Cyfartal** - Bydd gweithio mewn ffordd deg a chyson ar draws Cymru a sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru a Lloegr yn sicrhau bod pob teulu'n cael ei gefnogi'n gyfartal ac nad oes unrhyw deulu dan anfantais oherwydd ble maent yn byw;
- **Cymru Gydnerth** - Lleihau rhywfaint o'r baich ariannol ar deuluoedd mewn profedigaeth ar ôl colli plentyn, gan gynnwys y teuluoedd mwyaf agored i niwed lle gallai caledi ariannol ychwanegol gael effaith ar y teulu yn y tymor hwy;
- **Cymru Iachach** - Cefnogi iechyd a lles y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol a'r teulu ehangach yn well drwy leihau straen a biwrocratiaeth ddiangen pan fyddant ar eu mwyaf agored i niwed;
- **Cymru o Gymunedau Cydlynol** – Hyrwyddo gwybodaeth a mynediad at wasanaethau cymorth profedigaeth ehangach i rieni a theuluoedd.

Nid ydym yn credu y bydd y polisi'n cael effaith negyddol ar y nodau a'r amcanion llesiant.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Yn unol â'r dull y cytunwyd arno, gan na fydd angen manylion yr angladd neu'r dystiolaeth o wariant, bydd yn anodd dangos tystiolaeth/gwerthuso effaith uniongyrchol y cynllun. Fodd bynnag, cynigir bod y dull yn cael ei adolygu'n barhaus wrth iddo gael ei weithredu a bod adolygiad ehangach yn cael ei gynnal ar ôl cyfnod o amser i gasglu gwybodaeth ansoddol gan Gofrestryddion a gwasanaethau cymorth profedigaeth i ddeall beth fu'r effaith. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro nifer y taliadau sy'n cael eu gwneud yn flynyddol.